**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Children, Young People and Education Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

21 Mai 2014

Annwyl Syr / Madam

**Ymgynghoriad ar y Bil Addysg Uwch (Cymru)**

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn gwahodd tystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Uwch (Cymru). I gynorthwyo ei waith, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn am y pwnc hwn.

**Beth yw Bil?**

Cyfraith arfaethedig yw Bil. Ar ôl i'r Cynulliad ystyried a phasio Bil, ac ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines, mae'n dod yn 'Ddeddf y Cynulliad.'

Mae pedwar cyfnod i'r broses o ystyried Bil. Yng Nghyfnod 1, bydd pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil (sy'n cynnwys cymryd tystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar gan rai sydd â diddordeb a chan randdeiliaid); ac mae Cyfnod 1 hefyd yn cynnwys cael cytundeb y Cynulliad i'r egwyddorion cyffredinol hynny.

**Beth y mae'r Bil hwn yn gobeithio ei gyflawni?**

Mae polisi Llywodraeth Cymru sydd wrth wraidd y Bil wedi'i amlinellu yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil. Yng nghyswllt y Bil, prif amcanion polisi Llywodraeth Cymru yw:

/…


Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg / Children, Young People and Education Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8429
Ebost / Email : CYPCommittee@wales.gov.uk

- sicrhau bod sefydliadau yng Nghymru, y mae eu cyrsiau'n cael eu cefnogi gan grantiau a benthyciadau a gynorthwyir gan Lywodraeth Cymru, yn cael eu rheoleiddio mewn ffordd gadarn a chymesur;
- diogelu'r cyfraniad a wneir at fudd cyhoeddus drwy gymorth ariannol Llywodraeth Cymru i gefnogi addysg uwch;
- canolbwyntio'n gryf ar sicrhau bod addysg uwch ar gael i bawb yn ddiwahân; a
- chynnal a diogelu annibyniaeth sefydliadol a rhyddid academaidd prifysgolion.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni'r amcanion hyn drwy:

- sefydlu fframwaith rheoleiddio newydd sy'n gymwys i bob darparwr addysg uwch yng Nghymru sydd am i'w cyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr;
- sicrhau nad yw'r rheolaethau rheoleiddio newydd yn dibynnu ar Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i ddarparu arian i'r sefydliadau a'r darparwyr hynny;
- ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr addysg sy'n cael budd o gymorth ariannol Llywodraeth Cymru, o ran benthyciadau neu grantiau ffioedd myfyrwyr, gael statws elusennol;
- ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr addysg uwch y mae eu cyrsiau'n cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr i ymrwymo i weithredu i sicrhau bod addysg uwch ar gael i bawb yn gyfartal; ac
- adeiladu, cyhyd ag y bo'n bosibl, ar y system bresennol o reolaethau a bennwyd gan CCAUC o dan ei delerau ac amodau ariannu.

Mae'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol ar gael ar wefan y Cynulliad drwy ddilyn y linc canlynol:

http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=9722

**Beth yw rôl y Pwyllgor?**

Rôl y Pwyllgor yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad arnynt.  Yn hynny o beth, mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar gylch gorchwyl, sef:

Trafod:

i) egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Uwch (Cymru) ac yw’r dull deddfwriaethol a amlinellir yn y Bil yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r amcanion polisi a nodwyd;

ii) prif ddarpariaethau'r Bil ac a ydynt yn briodol ac yn gymesur i gyflawni'r amcanion a nodwyd;

/...

iii) pa mor briodol a chymesur yw'r pwerau y mae'r Bil yn eu rhoi i Lywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i benderfynu a gorfodi gofynion gorfodol mewn perthynas â sefydliadau a reoleiddir;

iv) goblygiadau'r Bil ar gyfer llywodraethu, ymreolaeth a rhyddid academaidd prifysgolion, gan gynnwys eu statws fel elusennau a sefydliadau di-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd at ddibenion cyfrifyddu cenedlaethol;

v) yr effaith ar fyfyrwyr (gan gynnwys y myfyrwyr hynny nad ydynt yn talu ffioedd uwch) a rhanddeiliaid addysg uwch ehangach, a materion trawsffiniol posibl sy'n deillio o'r Bil;

vi) y rhwystrau posibl rhag rhoi'r prif ddarpariaethau ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried;

vii) goblygiadau ariannol y Bil (fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol, yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n amcangyfrif y costau a'r buddiannau o weithredu'r Bil); ac

viii) priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol, lle mae tabl sy'n rhoi crynodeb o bwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth).

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo ei waith o graffu ar y Bil. Yn benodol, byddem yn croesawu eich sylwadau ar y cwestiynau a restrir yn Atodiad 1.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch sylwadau at: PwyllgorPPI@cymru.gov.uk a nodi'r teitl a ganlyn ar yr e-bost, "Ymgynghoriad – Bil Addysg Uwch (Cymru)."

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA

Dylai unrhyw sylwadau gyrraedd erbyn 20 Mehefin 2014. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Wrth baratoi eich sylwadau, cadwch y canlynol mewn cof:

- dylai eich ymateb gyfeirio at y materion sydd gerbron y Pwyllgor. Gofynnwn i chi roi'r teitl a nodir uchod ar eich tystiolaeth;
- bydd y Cynulliad Cenedlaethol fel rheol yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael yn gyhoeddus, ac efallai y cânt eu gweld

/...

a’u trafod gan Aelodau’r Cynulliad mewn cyfarfodydd pwyllgor. Os nad ydych am i’ch ymateb na’ch enw gael eu cyhoeddi, mae’n bwysig eich bod yn nodi hynny’n glir wrth gyflwyno’r dystiolaeth;

- nodwch ai ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad yr ydych; a
- nodwch a fyddech yn barod i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor. (Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor yn debygol o glywed tystiolaeth lafar yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2014.)

Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y maes hwn. Os byddwch yn ymateb ar ran sefydliad, dylech gynnwys disgrifiad cryno o rôl y sefydliad. Mae’r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a gofynnir i sefydliadau sydd â pholisïau/cynlluniau Iaith gyflwyno deunydd yn ddwyieithog, yn unol â’u polisïau ar wybodaeth i’r cyhoedd.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod y dyddiadau uchod.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gwahodd amrywiaeth eang o sefydliadau i roi sylwadau, ac mae rhestr o'r rhain ar gael ar gais. Fodd bynnag, byddai’r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o’r llythyr hwn ymlaen at unrhyw unigolyn neu sefydliad y credwch yr hoffent gyfrannu at yr adolygiad. Mae copi o’r llythyr hwn wedi’i roi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

**Datgelu gwybodaeth**

Mae polisi'r Cynulliad ynghylch datgelu gwybodaeth i'w weld yma. Gofalwch eich bod yn ystyried y manylion yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Neu, mae copi caled o'r polisi hwn i'w gael drwy gysylltu â'r Clerc.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Gareth Rogers, Clerc y Pwyllgor ar 029 2089 8409 neu Sarah Bartlett, y Dirprwy Glerc ar 029 2089 8429.

Yn gywir



**Ann Jones AC / AM**
Cadeirydd / Chair

## Cwestiynau ymgynghori

## Cyffredinol

1. Mae'r Memorandwm Esboniadol, a baratowyd gan Lywodraeth Cymru, yn disgrifio prif ddibenion y Bil drwy nodi mai:

> "Yng nghyswllt y Bil, prif amcanion polisi Llywodraeth Cymru yw:
>
> - sicrhau bod sefydliadau yng Nghymru, y mae eu cyrsiau'n cael eu cefnogi gan grantiau a benthyciadau a gynorthwyir gan Lywodraeth Cymru, yn cael eu rheoleiddio mewn ffordd gadarn a chymesur;
> - diogelu'r cyfraniad a wneir at fudd cyhoeddus drwy gymorth ariannol Llywodraeth Cymru i gefnogi addysg uwch;
> - canolbwyntio'n gryf ar sicrhau bod addysg uwch ar gael i bawb yn ddiwahân; a
> - chynnal a diogelu annibyniaeth sefydliadol a rhyddid academaidd prifysgolion.
>
> Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni'r amcanion hyn drwy:
>
> - sefydlu fframwaith rheoleiddiol newydd sy'n gymwys i bob darparwr addysg uwch yng Nghymru sydd am i'w cyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth myfyrwyr;
> - sicrhau nad yw'r rheolaethau rheoleiddio newydd yn dibynnu ar Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i ddarparu arian i'r sefydliadau a'r darparwyr hynny;
> - ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr addysg sy'n cael budd o gymorth ariannol Llywodraeth Cymru, o ran benthyciadau neu grantiau ffioedd myfyrwyr, gael statws elusennol;
> - ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr addysg y mae eu cyrsiau'n cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth myfyrwyr i ymrwymo i weithredu i sicrhau bod addysg uwch ar gael i bawb yn gyfartal; ac
> - adeiladu, cyhyd ag y bo'n bosibl, ar y system bresennol o reolaethau a bennwyd gan CCAUC o dan ei delerau ac amodau ariannu."

A oes angen Bil ar gyfer y dibenion hyn? Esboniwch eich ateb.

2. A ydych yn credu bod y Bil, fel y'i drafftiwyd, yn cyflawni'r amcanion a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol? Esboniwch eich ateb.

3. A yw adrannau'r Bil, fel y'u drafftiwyd, yn briodol i gyflawni'r amcanion a ddisgrifir uchod? Os nad ydynt, pa newidiadau y mae angen eu gwneud i'r Bil?

4. Sut y bydd y Bil yn newid yr hyn y mae sefydliadau yn ei wneud ar hyn o bryd, a pha effaith y bydd newidiadau o'r fath yn ei chael, os o gwbl?

5. Beth yw'r rhwystrau posibl i roi darpariaethau'r Bil ar waith (os ydynt yn bodoli), ac a yw'r Bil yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt?

6. A oes gennych farn ynghylch y modd y daw'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

**Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth**

7. Beth yw eich barn am y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (hynny yw, offerynau statudol, gan gynnwys rheoliadau, gorchmynion a chyfarwyddiadau)?
Wrth ateb y cwestiwn hwn, mae'n bosibl y byddwch am ystyried Adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol, sy'n cynnwys tabl yn crynhoi'r pwerau a fydd yn cael eu dirprwyo i Weinidogion Cymru yn y Bil i wneud gorchmynion a rheoliadau ac yn y blaen.

**Goblygiadau ariannol:**

8. Beth yw eich barn am oblygiadau ariannol y Bil?
Wrth ateb y cwestiwn hwn, mae'n bosibl y byddwch am ystyried Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol (yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), sy'n cynnwys amcangyfrif o'r costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â rhoi'r Bil ar waith.

**Sylwadau eraill**

9. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am rannau penodol o'r Bil?